



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Arloesi


## Gwobrau Arloesedd

Gwobrau Arloesedd yn dathlu dau ddegawd o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o greadigrwydd.



Beth yw'r cysylltiad rhwng breichiau prosthetig i chwaraewyr pêl-rwyd anabl, system cloi beiciau gymunedol a theclyn sy'n oeri caniau diod wedi'i ysbrydoli gan bartïon? Mae pob un ohonynt yn enghreifftiau o syniadau arloesol a chreadigol sydd wedi cael eu gwireddu gan bobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru fel rhan o'r *Gwobrau Arloesedd* dros yr ugain mlynedd ddiwethaf.

Mae'r *Gwobrau Arloesedd* yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliad dyfarnu CBAC, ac mae wedi bod yn annog pobl ifanc i ddefnyddio'r sgiliau maent wedi eu hennill o'u hastudiaethau dylunio a thechnoleg trwy ddod o hyd i fylchau yn y farchnad fasnachol a dyfeisio cynnyrch newydd. Mae'r digwyddiad blynyddol, sy'n troi'n 20 oed yn 2018, wedi arddangos dros 1,500 o nwyddau a dyluniadau gan ddyfeiswyr brwdfrydig o bob cwr o Gymru, ac mae wedi helpu i feithrin gwerthfawrogiad o ddylunio a thechnoleg wrth greu cynnyrch newydd a'u cyflwyno nhw i'r farchnad.



Mae'r Gwobrau'n cefnogi un o themâu allweddol strategaeth *Arloesi Cymru* Llywodraeth Cymru, trwy hyrwyddo diwylliant o arloesi ledled y wlad. Bob blwyddyn, caiff 80 o syniadau newydd eu dewis a'u harddangos, ac mae ysgolion a cholegau'n cael eu gwahodd i ddod â myfyrwyr i weld y cysyniadau a ddewiswyd, ochr yn ochr â'u hathrawon a gweithwyr proffesiynol o fewn y diwydiant. Yna, mae'r prosiectau mwyaf arloesol sy'n cael eu harddangos yn mynd ymlaen i gael eu beirniadu yng nghategoriâu myfyrwyr TGAU, Lefel AS a Lefel A, yn ogystal â chategoriâu unigol ar gyfer creadigrwydd, eiddo deallusol a dylunio a gweithgynhyrchu cyfrifiadurol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r *Gwobrau Arloesedd* wedi ehangu i gynnwys seminarau ar ddylunio ac arloesi i fyfyrwyr ac athrawon gan rai o brif arbenigwyr y diwydiant a'r byd addysg, yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrwyr ehangu eu gwybodaeth trwy ddadansoddi cwestiynau wedi'u marcio o gyn-bapurau lefel A.

Mae rhai o'r dyluniadau cofiadwy dros y blynyddoedd yn cynnwys Oliver Stokes, y prif enillydd yn 2015 gyda'i beiriant carbonadu diodydd symudol o'r enw "Gas to Go", ac enillydd y categori Lefel A yn 2016, sef Cellan Cox o Ysgol Uwchradd Llanisien, a greodd amddiffynnydd baw wedi'i oleuo i feiciau mynydd.

Yn 2017, dewisodd y beirniaid Kyle Williams o Ysgol Trefynwy yn brif enillydd, am ei system gloi gyhoeddus, i'w defnyddio gan y cyhoedd i ddiogelu eu beiciau trwy ddefnyddio darn punt. Mae Kyle yn un o'r pum myfyriwr a ddewiswyd i fynd â'i brosiect i Gystadleuaeth y 'Big Bang', a drefnir fel rhan o Ffair Gwyddonwyr a Pheirianwyr Ifanc y DU 2018.

Dywedodd Steve Howells, swyddog pwnc CBAC ar gyfer dylunio a thechnoleg: "Gyda chymaint o bobl â thechnoleg ar flaenau eu bysedd, mae digwyddiadau fel y *Gwobrau Arloesedd* yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddyfeiswyr yng Nghymru trwy annog pobl ifanc i gredu y gall eu syniadau gael eu gwireddu. Trwy roi'r offer sydd eu hangen arnynt i greu eu dyfeisiadau, p'un a yw hynny trwy waith cwrs neu gystadlaethau, rydym yn neilltuo adnoddau i genhedlaeth newydd o arloeswyr rhagorol."



**Busnes | Business**  
**Cymru | Wales**

I wybod rhagor am gyllid a chymorth  
gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000  
innovation@llyw.cymru | businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu**  
**Rhanbarthol Ewrop**  
**European Regional**  
**Development Fund**